OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1219

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

## RHAN 4

### Gofyniad i ynysu etc.

PENNOD 1

Gofyniad i ynysu etc. pan fo person yn cael canlyniad positif am y coronafeirws neu wedi dod i gysylltiad agos â pherson o'r fath

**Dehongli'r Rhan**

**10.**—(1) Yn y Rhan hon ystyr "cysylltiad agos" yw cysylltiad y mae swyddog olrhain cysylltiadau yn ystyried y gall arwain at risg o haint neu halogiad â'r coronafeirws, gan gynnwys—

(a) dod i gysylltiad wyneb yn wyneb â pherson o bellter o lai nag 1 metr;

(b) treulio mwy na 15 munud o fewn 2 fetr i berson;

(c) teithio mewn car neu gerbyd bach arall gyda pherson neu'n agos i berson ar awyren neu yn yr un cerbyd mewn trên.

(2) Yn rheoliadau 11 a 13, mae cyfeiriadau at "oedolyn" ("O") yn cynnwys cyfeiriadau at blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed.

(3) At ddibenion y Rhan hon, mae gan berson gyfrifoldeb dros blentyn os oes gan y person—

(a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn am y tro, neu

(b) cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn, nid yw hysbysiad drwy ap ffôn clyfar Covid 19 y GIG a ddatblygir ac a weithredir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 10 mewn grym ar 9.11.2020, gweler **rhl. 1(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 04/12/2020. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020, Adran 10.